| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **17 Gorffennaf 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Dyfodol Gofal Sylfaenol: Cynllun Gweithredu ar gyfer Gofal Sylfaenol (Gorffennaf 2002)** |

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drafod datblygiad Cynllun Gweithredu ar gyfer Gofal Sylfaenol, i roi *Dyfodol Gofal Sylfaenol - Strategaeth Gofal Sylfaenol* (Gorffennaf 2002) ar waith 2001. Trafodir y cynllun mewn cyfarfod ar 17 Gorffennaf.

**Cefndir**

2. Mae Cynllun Gweithredu Gofal Sylfaenol yng Nghymru yn disgrifio'r camau penodol sydd angen eu cymryd i weithredu'r weledigaeth, a nodir yn y strategaeth gofal sylfaenol - Dyfodol Gofal Sylfaenol (Gorffennaf 2001), o wasanaeth gofal sylfaenol ffres ac o ansawdd ar gyfer pobl Cymru. Croesawyd y Strategaeth a 178 o ymatebion i'r ymgynghoriad yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar 15 Ionawr 2002. Roedd cefnogaeth eang i'r strategaeth a'r weledigaeth, a rhoddwyd ymrwymiad i gynhyrchu Cynllun Gweithredu i ddatblygu strategaeth ac arweiniad i'r GIG a'i bartneriaiad ei roi ar wait

3. Cyd-destun y Cynllun Gweithredu yw tan-ddatblygiad cymharol gofal sylfaenol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf ac amrywiadau enfawr mewn safonau. Mae enghreifftiau o amrywiadau ar draws Cymru yn cynnwys: hyd rhestrau (Gwynedd 1347 - Blaenau Gwent 1956); nifer y meddygon teulu i bob 1,000 o'r boblogaeth (Rhondda Cynon Taf 5.1 - Ceredigion 8.8); canran y meddygon teulu dros 55 oed (Bro Morgannwg 2.8 - Blaenau Gwent 38.5); Meddygon teulu sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain (Ceredigion 0 - Blaenau Gwent 33.3%); eitemau prescripsiwn i bob 1,000 o'r boblogaeth (Caerdydd 9,911 - Merthyr 15,079).

4. Nod trosfwaol y Cynllun Gweithredu yw pennu amcanion cenedlaethol ar gyfer gofal

sylfaenol; wedi'u cysyslltu â'r safonau, yr arweiniad, y partneriaid a'r terfynau amser sydd eu hangen i ddarparu'r gofal sylfaenol gorau ym mhob cwr o Gymru.

5. Ers i'r Strategaeth gael ei chyhoeddi, mae gwaith wedi dechrau ar y broses o adfywio gofal sylfaenol. Rhoddir manylion hyn yn y Cynllun Gweithredu o dan 'gwaith ar y gweill'. Mae'n cynnwys prosiectau cenedlaethol a mentrau lleol sy'n adlewyrchu natur barhaus yr ymdrechion i ddatblygu gofal sylfaenol. Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhan o broses gymalog i ddarparu gwelliant parhaus i wasanaethau gofal sylfaenol. Mae'n pennu safonau'r gofal sylfaenol, y bydd y cyhoedd yn gallu manteisio arnynt, ac yn tynnu sylw at y cerrig milltir pwysig, megis ymgynghori ar strategaethau deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth yn ategol i'r prif Gynllun Gweithredu Gofal Sylfaenol. Er mwyn adlewyrchu bod gwaith ychwanegol wedi'i gwblhau ac i gyd fynd â sefydlu Byrddau Iechyd Lleol, bydd ail gam y Cynllun Gweithredu yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2003. Bydd y safonau o fewn y Cynllun Gweithredu yn cael eu diweddaru'n gyson i gynnwys datblygiadau polisi ac arfer da ac yn cael eu hintegreiddio i broses y Fframwaith Strategol ac Ariannol a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad.

6. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddatblygu o fewn cyd-destun trafodaethau contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) rhwng Cydffederasiwn yr NHS/ Llywodraethau'r DU a Chymdeithas Feddygol Prydain (BMA). Mae'r BMA a Chydffederaswin yr NHS wedi cytuno ar fframwaith y contract a bydd pleidlais gyntaf y meddygon teulu yn cael ei chynnal ym mis Gorffennaf 2002. Mae'r cyfeiriad a nodir o fewn y Cynllun Gweithredu yn gyson â'r hyn a nodir yn fframwaith y contract.

7. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddiweddaru o fewn cyd-destun trafodaethau'r contract GMS newydd a'r posibilrwydd o lunio trefniadau amodol ar gyfer fferyllfeydd a deintyddfeydd cymunedol. Mae'n orfodol fod y prosesau hyn yn parhau i ategu a chefnogi'r agenda i adfywio gofal sylfaenol. Eisoes, mae amrywiaeth o opsiynau cytundebol yn dechrau cyd-fodoli yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys opsiynau o ran swyddi a defnyddio'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i hyrwyddo hyblygrwydd o fewn gofal sylfaenol ac i gwrdd ag anghenion amrywiol pobl broffesiynol mewn gofal cyhoeddus a gofal sylfaenol, gydag ystyriaeth briodol i'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa.

**Crynodeb**

8. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei strwythuro yn ôl thema, ac mae pob pennod yn rhoi manylion y prif elfennau ochr yn ochr â'r camau i'w cymryd i wella'r gwasanaethau gofal sylfaenol. Effaith gyffredinol cymryd y camau fydd atgyfnerthu sefyllfa gofal sylfaenol fel yr un sy'n sbarduno gofal integredig sy'n pontio nifer o sectorau, tra'n darparu continiwm o ofal cydlynol ar yr un pryd. Mae gwasanaethau gofal sylfaenol a thîmau gofal sylfaenol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â chleifion, i fod yn fodelau newydd ar gyfer nyrsio a'r Gweithwyr Iechyd Cysylltiedig Proffesiynol.

9. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cefnogi datblygu modelau gofal sylfaenol newydd, sy'n rhoi rolau newydd a gwell i'r holl weithwyr proffesiynol gofal iechyd o'u cynnwys fel aelodau o'r

tîm gofal sylfaenol. Bydd y modelau newydd hyn yn cael eu cefnogi trwy ddatblygu'r seilwaith gofal sylfaenol o ran rhannu gwybodaeth glinigol ac, yn dilyn asesiadau o anghenion lleol, datblygu Canolfannau Adnoddau Gofal Sylfaenol fel elfennau pwysig o'r strategaethau gwasanaethau lleol.

10. Yn y tymor byr, mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi bod angen gweithredu ar y blaenoriaethau a restrir isod:

- System Gofal Sylfaenol sy'n Canolbwyntio ar y Claf - Nodir bod camau ar waith i roi mwy o ddweud i'r claf a'r cyhoedd mewn materion a phenderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal personol, cynllunio gwasanaethau gofal sylfaenol a diwallu anghenion iechyd lleol, a diwallu anghenion iechyd grwpiau dan anfantais

- Gofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd - Mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod gofal sylfaenol yn cyfrannu at wella iechyd y boblogaeth, ac y dylid dwyn ynghyd sgiliau, arbenigedd a phersbectif gweithwyr gofal sylfaenol a gweithwyr iechyd proffesiynol er lles iechyd pawb.

- Mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol – Mae camau yn eu lle i alluogi cleifion a'r cyhoedd i gael mynediad at aelod o'r tîm gofal sylfaenol o fewn yr oriau craidd ac wedi hynny, o fewn amser priodol, pan fo angen clinigol yn gofyn am hynny

- Ansawdd a Llywodraethu Clinigol - Mae camau eisoes wedi'u cymryd a byddant yn parhau i gael eu datblygu i sicrhau bod diwylliant gofal sylfaenol yn canolbwyntio ar wneud y peth iawn ar yr adeg iawn gan y person iawn, ac yn canolbwyntio fwyfwy ar warantu a gwella'r ansawdd

- Darparu Gwasanaeth o Ansawdd - Gosodwyd ystod o safonau ar gyfer yr holl wasanaethau gofal sylfaenol â'r nod o gynnig darpariaeth o'r safon uchaf bosibl, a bod gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cefnogi hyn. Bydd continiwm iechyd a lles integredig yn cael ei ddatblygu fel dolen rhwng y cynlluniau gofal integredig, y rhwydweithiau clinigol, llywodraethu clinigol a'r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol

- Y Gweithlu – mae cynllun gweithredu'r gweithlu yn gosod ystod o gamau sydd angen iddynt eu cymryd yn y tymor byr a chanolig i sicrhau bod y tîm gofal sylfaenol yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol iddynt ddatblygu eu rôl estynedig, ac i wella ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Mae cynllunio'r gweithlu wedi ei gysylltu â'r mentrau i recriwtio a chadw, comisynu cytundebau addysg a hyfforddiant a threfniadau contract modern. Bydd Unedau Cymorth Gofal Sylfaenol, fel Uned Cymorth Cwm Cynon, yn cael eu defnyddio fwyfwy i sicrhau bod yr holl gleifion yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar yr holl wasanaethau gofal sylfaenol. Rydym ar y ffordd i gyflawni ymrwymiad y Strategaeth Gofal Sylfaenol, sef y bydd pawb yng Nghymru yn derbyn gwasanethau gofal sylfaenol gan dîm erbyn 2006. Bydd y tîm gofal sylfaenol yn ffordd i bobl gael mynediad at fwy o wasanaethau arbenigol sy'n cael eu darparu naill ai yn y gymuned neu yn yr ysbyty trwy brotocolau a safonau cymeradwy
- Seilwaith – Mae camau ar waith i sicrhau bod yr holl adeiladau gofal sylfaenol o'r ansawdd priodol ac yn addas at y gwaith, mewn cyflwr da ac yn ddiogel i bawb eu defnyddio. Bydd rhaglen trwsio a

gwella yn cael ei chysylltu â'r strategaethau ystadau lleol. Gan gofio'r hyn a ddysgom gan y strategaeth ystadau beilot yng Ngrwp Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf, bydd y rhain yn cynnwys cynlluniau ar gyfer canolfannau adnoddau (newydd, neu gan ddefnyddio adnoddau presennol ystad yr NHS neu fan arall) er mwyn integreiddio'r gwasanethau gofal sylfaenol a darparu gweithle i dîm estynedig y gwasanethau gofal. Bydd gwybodaeth am ofal sylfaenol, systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a seilwaith yn cael ei datblygu fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol i Ddatblygu Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth ar gyfer GIG Cymru, a bydd agweddau penodol yn cael eu hintegreiddio i ail gam y Cynllun Gweithredu.

- Corff Gofal Cymdeithasol - ymrwymiad i ddatblygu gofal sylfaenol yn barhaus yw sylfaen y cynllun. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ymrwymiad at wella'r trefniadau ymchwil a datblygu, gweithredu'r Fframwaith Gwelliant Parhaus ar lefel gofal sylfaenol a rhoi cymorth i'r rhwydweithiau dysgu gofal sylfaenol i rannu'r arferion gorau.

**Y Broses**

11. Ar ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drafod, bydd Cam 1 y Cynllun Gweithredu yn cael ei anfon i'r GIG a'i bartneriaid i'w roi ar waith. Bydd ail gam y Cynllun Gweithredu yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2003.

**Cydymffurfio**

12. Mae Deddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol 1977 (Adran 1) yn delio â'r ddyletswydd i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr a darparu neu sicrhau gwasanaethau. Mae Adran 2 yn cyflwyno pwerau ategol eang. Cafodd y pwerau hyn eu trosglwyddo i'r Cynulliad o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 ac maent wedi'u dirprwyo i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi'r pwer i'r Cynulliad wneud unrhyw beth i hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu sy'n gydnaws â hynny neu'n atodol i hynny (Adran 40) a thynnu gwariant (Adran 85, Paragraff 2) a gosod amodau ar i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth ariannol (Adran 85, Paragraff 3).

13. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

14. Mae camau gweithredu tymor byr y Cynllun Gweithredu naill ai eisoes wedi cael eu cyfrif mewn cyllidebau presennol, neu gellid eu cyflawni trwy weithredu arfer gorau. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad o fewn y Cylch Cynllunio Cyllideb cyfredol. Mae Is-adran Cyllid y GIG wedi nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn y cyfnod hwn (DT 02/07). Bydd angen cyllid gan gylchoedd cynllunio cyllideb y dyfodol er mwyn adfywio gofal sylfaenol (ystadau, y gweithlu ac IM&T) yn y tymor canolig (5 mlynedd) a'r

tymor hir (10 mlynedd).

**Themâu trawsbynciol**

15. Mae'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu dyletswyddau'r Cynulliad Cenedlaethol i gydweithio â llywodraeth leol, busnesau a'r sector gwirfoddol, ac i ystyried cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy wrth weithredu.

**Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

16. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi datblygiad y Cynllun Gweithredu ac i roi sylwadau ar hynt y broses o roi'r Strategaeth Gofal Sylfaenol ar waith.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Pwynt Cyswllt**


**Mike Ponton, Tim Cynllunio a Strategaeth Iechyd a Lles**

**Ffon 029 2082 3204**